# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Rhagfyr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 38(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio'r Dreth Gyngor yng Nghymru

(45 munud)

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Gwaith Ymchwil Manwl ar Ynni Adnewyddadwy - I'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

(0 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

(45 munud)

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

(15 munud)

**NDM7857** - Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2021 a 24 Tachwedd 2021, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar *(Saesneg yn unig)*

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Hydref 2021)*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Tachwedd 2021)*

## 8 Dadl: Cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant

(60 munud)

**NDM7858** - Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig drafft yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

2. Yn nodi y caiff y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021

**Dogfennau Ategol**
Y Cynllun Hawliau Plant: llawlyfr i staff Llywodraeth Cymru
Codi ymwybyddiaeth o hawliau plant

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/12/2021 i'w hateb ar 07/12/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ57341 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch Cymru yn cael cyfran deg o fuddsoddiad seilwaith rheilffyrdd yn dilyn cymeradwyaeth adroddiad Hendry ar gyfer cynigion metro de-ddwyrain Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

2 OQ57315 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad cymdeithasau budd cymunedol?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ57345 **(w)**

Pa gynnydd y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud mewn perthynas â'i hadolygiad ffyrdd?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OQ57343 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gynnwys pobl leol a chymunedol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ57347 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu sgiliau digidol yn Ynys Môn?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

6 OQ57336 **(e)**

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddileu trais yn erbyn menywod?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

7 OQ57332 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau bysiau yng Ngogledd Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ57314 (e)

A gafwyd unrhyw ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas ag wythnos waith pedwar diwrnod?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

9 OQ57309 (w)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer sefydlu academi ddeintyddol newydd Bangor?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ57342 (w)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau allyriadau carbon yn Sir Benfro?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ57344 (e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu ceisio noddfa a chymorth yng Nghymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ57330 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu maint y Senedd?